amgueddfa cymru
national museum wales

# Echidna wedi'i ailgylchi

## Dathlwch ddiwedd gaeafgysgu gan greu echidna wedi'i ailgylchi o hen lyfrau



Echidna yn y Ganolfan Ddarganfod Clore, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

## Bydd angen:

- Hen lyfr (un gyda 100 tudalen neu lai, neu os oes mwy, rhwygwch nhw mas)
- Siswrn
- Tap gludiog
- Cerdyn i greu llygaid a thrwyn (dewisol)




# Echidna wedi'i ailgylchi

## Cyfarwyddiadau

1. Gan ddechrau gyda thudalen cyntaf eich llyfr, plygwch y tudalen mewn hanner (tuag at ganol y llyfr) gyda phlyg cadarn.
2. Plygwch gornel top y tudalen tuag at ganol y llyfr, wedyn plygwch gornel gwaelod y tudalen yn yr un modd.
3. Ailadroddwch y proses nes bod y tudalennau i gyd wedi'i phlygu.
4. Ar ôl i chi orffen, gwasgarwch y tudalennau, a gan ddefnyddio tap gludiog ewch ati i selio'r tudalen gyntaf i glawr y llyfr.
5. Ewch ati i ailadrodd y cam yma gyda thudalen olaf y llyfr, a'r clawr cefn.
6. Gadwech y darn o'r clawr sydd o dan yn yr Echidna yn ei le, ond  torrwch y gweddill i ffwrdd.
7. Crëwch fanylder ar wyneb eich echidna. Fe ddefnyddion ni cerdyn du a phaent gwyn!







Beth am anfon llun i ni ar Twitter?

@Amgueddfa_Learn